

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Mr Eilir Taylor (Llansannan) ddechrau'r wythnos. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i frodyr, Robert John ac Arthur (Llansannan), ac Ifan, ac â gweddiwl y teulu yn eu profedigaeth. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth amdano.

Parhawn i gofio am y cleifion yn ein plith. Cofiw'n yn arbennig am Heather Jones (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Edwin Jones (Peniel), Selwyn Davies (Nantglyn) a Iorwen Roberts (Llansannan) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari. Cyflwynwn y pedwar, ynghyd ag eraill o'r ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd.

Anfonwn ein cofion cynhesaf hefyd at ein cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal: Gwen Evans (Saron), Dilys Jones (Nantglyn), Edna Evans (Llanfair), Gwyn Jones (Peniel) a Richard M. Jones (Cefn Berain). Diolchwn am y gofal y maen nhw'n ei dderbyn yno a gweddiwn eu bod yn profi nerth a daioni Duw yn ddyddiol.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Trebor Evans (Llansannan) sydd newydd ddathlu penblwydd arbennig ac i Dilys Jones (Nantglyn) fydd yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod y pythefnos nesaf!

Pecyn Dydd Gweddi'r Byd

Os ydych am i ni gasglu'r deunydd ar gyfer eich eglwys i gynnal gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn 2023, bydd angen i chi fod wedi archebu'r deunydd erbyn **dydd Mawrth, Tachwedd 15fed**, gan nodi ar y daflen y bydd rhywun o Eglwys Bro Aled yn casglu'r pecyn ar eich rhan. (A fyddwch cystal â gadael i Mair wybod hynny hefyd, os gwelwch yn dda?) Os nad ydych wedi derbyn ffurflen i archebu'r deunydd, plis cysylltwch â Mair.

Coleg y Bala

- **Arfogi** – penwythnos i annog ac arfogi myfyrwyr ac oedolion ifanc (19+) Tachwedd 18^{fed}–20^{fed}. Medrwrch archebu lle ar wefan colegybala.org.
- **Penwythnos Peldroed (B1.5-9)** – Tachwedd 26^{ain}–27^{ain}. Deuddydd a noson yn llawn gemau pel-droed, twrnamantau pel-droed a gwyllo gêm pel-droed Cwpan y Byd 'Ariannin v Mexico'. Mi fydd cyfle hefyd i chwarae pel-droed ar 3G Bala Town ac yn y ganolfan hamdden, ac amser i ddefnyddio'r ystafelloedd 'gaming' a chwaraeon, yn ogystal â noson *takeaway!* Mae'r gost o £40 (£20 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu) yn cynnwys popeth! Archebwch le heddiw: https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSfypIWTikUDEzgWrCK3ZOGYI_2xJ-NLe_-irmQ6yp5OBfeRIA/viewform Cysylltwch â'r Coleg os oes gennych unrhyw gwestiwn: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.cymru.

(Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn Tachwedd 23^{ain}, os gwelwch yn dda.)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13 Tachwedd 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

O'r diwedd mae pethau'n dod yn ôl i drefn yng nghanol Llansannan! Gyda'r gwaith mawr wedi'i gwblhau, ers diwedd mis Hydref mae'n bosib gyrru trwy'r pentref â ffos newydd yn cario'r Afon Bach o dan y ffordd. I rywun fel fi, sydd â dim clem am waith peirianyddol nac adeiladu, mae'r hyn y maent wedi ei gyflawni yng nghanol y pentref mewn llai na blwyddyn yn eithaf rhyfeddol. Ac mae'r cwmni fu'n gyfrifol am y gwaith yn hyderus y gall y system weithio i'w llawn botensial pan ddaw glaw trwm. Felly does dim i'w wneud bellach ond diolch i'r rhai fu'n rhan o'r cynllun, ac ymddiried bod y gwaith a gyflawnwyd yn ddigonol i warchod rhag dinistr.

Gan fod cynhadledd newid hinsawdd COP 27 yn cael ei chynnal ar hyn o bryd yn yr Aifft, byddwn yn clywed llawer am y bygythiadau difrifol sy'n wynebu pobl ledled y byd yn sgil tywydd peryglus o bob math. Yn hytrach na bod tywydd eithafol yn eithriadau prin (dyweder un waith mewn canrif), mae nifer o arbenigwyr yn tybio y bydd y digwyddiadau yma'n dod yn llawer mwy cyffredin. Oherwydd hyn, ni all unrhyw gynllun atal llifogydd warantu y bydd yn diogelu adeiladau cyfagos am byth.

Ond wrth droi at y Beibl, gwelwn fod addewid digyffelyb yn cael ei roi gan Dduw mewn ymateb i gyflwr y byd. Er gwaethaf y dinistr mae pechod yn ei achosi wrth ein gwahanu oddi wrth ein Creawdwr, andwyo'r greadigaeth, ac achosi rhwyg rhwng pobl â'i gilydd, mae gobaith trwy'r hyn a wnaeth ein Harglwydd Iesu Grist. Ac nid ateb dros dro ydyw, ond aberth un waith am byth Iesu, Oen Duw sy'n cymryd ymaith bechod y byd! (Ioan 1:29)

Byddwn yn aml yn wynebu anawsterau a dryswch yn ein bywydau, ac yn brwydro i geisio gwneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd i ni. Cofiw'n nad yw'r Efengyl yn ein galw i ddeall popeth, ond i ymddiried yn y Duw sydd yn gwybod y cyfan, ac yn ei Fab a ddywedodd ar y Groes "Gorffennwyd". Hyd yn oed yn ein hancicrwydd a'n hofnau, trwy ffydd yng Nghrist gallwn gael hyder i wynebu beth bynnag a ddaw oherwydd yr hyn y mae wedi ei gyflawni trosom. Diolch i Dduw, oherwydd aberth Iesu, mae gan y Cristion hyder i fynd at Dduw 'ar hyd ffordd newydd a byw y mae Ef wedi ei agor inni'. (Hebreaid 10:19-20)

Rhodri

Manylion Cyswllt

Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Tachwedd 13^{eg}

- **Oedfa yn Llanefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones.
- Bydd **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00 ac **yn Llanefydd** am 10:30.
- Cynhelir **Cyfarfod Gweddi yn Llansannan** am 10:00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb am 10:50 ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 11:00.
- Bydd **Gwasanaeth Teuluol yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 ac **Ysgol Sul** am 2:00.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Llun, Tachwedd 14^{eg}

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd?' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Dydd Mawrth, Tachwedd 15^{fed}

- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar ZOOM. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Iau, Tachwedd 17^{eg}

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Ffestri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhowch eich enwau i Gwenno (07833 138515), os gwelwch yn dda.

Dydd Sadwrn, Tachwedd 19^{eg}

- **Ffair Nadolig** yng Nghapel Waengoleugoed rhwng 10:30 ac 15:00 i godi arian i gynnal Gofal Dydd. Maent yn apelio am nwyddau newydd fyddai'n addas fel anrhegion Nadolig (i blant neu oedolion) ar gyfer eu stondin anrhegion newydd. Gellir gadael y nwyddau ym mhorth y capel neu gallant drefnu i nol yr eitemau o fan canolog. Croeso i bawb a bydd Sion Corn yno hefyd.

Dydd Sul, Tachwedd 20^{fed}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad Mr Gerallt Jones. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10:15.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 y prynhawn o dan arweiniad Mr Gwion Dafydd.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr gyda Rhodri yn pregethu.

Dydd Llun, Tachwedd 21^{ain}

- **Cymdeithas Llansannan** yn cyfarfod yn y Ffestri am 7:30 yr hwyr pryd y ceir noson yng nghwmni Alwyn Jones, Betws yn Rhos: "Profiadau Arwerthwr". Croeso i bawb.

Dydd Mawrth, Tachwedd 22^{ain}

- **Cynhadledd Dydd Gweddi'r Byd** yng Nghapel y Groes, Wrecsam o 10:00 – 13:00. Diwrnod fydd hwn i baratoi a chael syniadau ar gyfer eich gwasanaeth lleol ym mis Mawrth.
- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar ZOOM. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Iau, Tachwedd 24^{ain}

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Ffestri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhowch eich enwau i Gwenno (07833 138515), os gwelwch yn dda.

Dydd Sadwrn, Tachwedd 26^{ain}

- **"Maeth"** – digwyddiad Cristnogol i bobl sydd â chysylltiad â'r byd amaethyddol yng Nghanolfan Brynygroes, Y Bala. Cinio am 1:00 y prynhawn a chyfarfod am 2:00.

Dydd Sul, Tachwedd 27^{ain}

- **Bore Bro Aled** – Oedfa i holl deuluoedd y Fro yng Nghapel Saron am 10:30. Croeso cynnes i bawb.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

I ddod

- **Paned a Sgwrs (Llansannan)** – Bwriedir mynd i Bod Erw, Llanelwy am Ginio Nadolig ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 6^{ed}. Enwau i Hafwen (870292) neu Sian (870230). erbyn Tachwedd 27^{ain}, os gwelwch yn dda.